COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 p.m., Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022
Fe'i cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, trwy feddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 13.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (Cadeirydd), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Jan Tiley, Tim Palazon, Stephen Nicholls, Jenni Jones-Annetts, Victory Ezeofor, Chris Franks, Sam Emmett, Salamatu Fada, Cathy Clark, Caroline Davies; Judith Evans a Siôn Aled Owen (hyd at gofnod 5 yn unig). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr); Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau) a Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad) - y ddau hyd at gofnod 11; Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni); Lynwen Davies (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd Rhian Edwards (Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru - cofnod 5 yn unig).
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Nicole Kinnaird, Dona Lewis.

2. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 17 Mawrth 2022 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd drwy Zoom, yn gofnod cywir. Gweithredwyd ar y tri phwynt gweithredu a restrwyd yno. Er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a dysgwyr (cofnod 7), roedd aelodau unigol o'r Cyngor yn cael eu gwahodd i fynychu dosbarth ar-lein: cysylltir â mwy i drefnu hyn ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Roedd Cathy Clark a Steve Nicholls eisoes wedi arsylwi dosbarth yr un, a chymeradwywyd ansawdd tiwtoriaid yn y sesiynau hynny gan y ddau ohonynt.

Cadarnhawyd bod pedwar aelod o'r Cyngor wedi ymddiswyddo ers y cyfarfod blaenorol - Toni Schiavone, Carl Hoskins, Gareth Cork a Steve David. O'r rheiny, etholwyd dau o lywodraethwyr staff yn eu lle, sef Nicole Kinnaird a Sam Emmett. Croesawyd yr olaf i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor, a chyflwynodd ei hun.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2022

Siaradodd Kathryn Robson am newid mawr i ddychwelyd i addysg wyneb yn wyneb, am y ffaith fod 82% o darged cyflwyno addysgol y flwyddyn wedi'i fodloni, a bod y Sefydliad yn gweithio gyda holl leoliadau aneddiadau Wcreiniaid yng Nghymru gyda chymorth ei staff ar brosiect AMIF. Roedd rhagolygon am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'i ffrwd Multiply (addysg rhifedd) yng Nghymru. Er y mynegwyd rhywfaint o amheuaeth ynglŷn â'r Gronfa honno a'i mecanwaith, sef trefnu bod arian ar gael i awdurdodau unedol yng Nghymru gan San Steffan/Whitehall heb drosolwg gan Lywodraeth Cymru/y Senedd, ni ddylid nacáu'r cyfle i fanteisio ar rai o'r agweddau addysgol llai (heb fod yn seilwaith) ar y

cyfryw gyllid. Roedd Cwricwlwm Dinasyddion i Gymru yn rhagolwg cyffrous fel rhaglen beilot hefyd, a allai helpu codi ein proffil. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y gwelliannau arfaethedig i galedwedd gweinydd TG mewnol/system storio ffeiliau'r Sefydliad, a diogelwch y gwasanaethau cwmwl newydd: gyda chymorth canllawiau JISC credwyd y byddai'r cyfryw rithwirio yn gwbl ddiogel.

Diolchwyd eto am fewnbwn aelodau'r Cyngor i'r Diwrnod Cynllunio Strategol ar 10 Mai. Byddai dilyniant ar ei gasgliadau'n ymwneud â materion brandio ac aelodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn yr hydref. Byddai presenoldeb gan y Sefydliad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron a digwyddiadau'r Haf yn y Parc yn Abertawe, ond nid yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru na Charnifal Butetown. **Byddai manylion yr ymddangosiadau yn y digwyddiadau cyhoeddus hyn yn cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor.**

4. Y Gofrestr Risg ar gyfer Gorffennaf 2022

Roedd cyfeiriadau at y gwrthdaro yn Wcráin ac at broblemau costau byw/chwyddiant, fel y'u codwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf, wedi'u hychwanegu at y Gofrestr. Credwyd y byddai sôn ar wahân am yr heriau costau byw a oedd yn cael eu creu ar gyfer dysgwyr yn ddefnyddiol. Nodwyd hefyd fod angen diweddaru dau o bwyntiau gweithredu/prosesau - yn 1.1.1 dylai'r cyfeiriad 'ymateb ymgynghori Model 3' gael ei hepgor; ac yn 6.1.1 dylid dileu'r sôn am weithio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar Gronfa Tudor Bowen Jones fel sylw anarferedig.

5. Trafodaeth gyda Rhian Edwards (Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau; Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes – Llywodraeth Cymru)

Roedd Rhian Edwards wedi bod yn ei swydd ers mis Mai 2021, ar ôl gweithio'n flaenorol i Ganolfan Cydweithredol Cymru (a elwir yn 'Cwmpas' erbyn hyn): felly roedd ganddi brofiad o sefydliadau trydydd sector. Fe'i gwahoddwyd i roi trosolwg o ymrwymiad y Llywodraeth i ddysgu oedolion yn y gymuned a sefyllfa bosibl y Sefydliad yn hynny. **Defnyddiodd gyflwyniad sleidiau i wneud ei phwyntiau allweddol: byddai hyn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Cyngor gan y Clerc ar ôl y cyfarfod.**

Pwysleisiodd ymrwymiad y Gweinidog Addysg i Genedl o Ail Gyfle a oedd yn cynnwys blaenoriaethau o fewn addysg oedolion, a phwysigrwydd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil a fyddai'n arwain at sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Roedd y Bil hwnnw'n cynnwys chwech o arloesiadau mawr, gan gynnwys dyletswydd newydd i ariannu dysgu gydol oes. Roedd y Gweinidog, mewn areithiau polisi yn ogystal â'i ymgymeriadau ymarferol, wedi datgan y byddai hyn yn cynnwys ymagwedd ehangach na chyrsiau oedd yn canolbwyntio ar gymwysterau'n unig, ac y byddai'n fwy trawsadrannol na chanolbwyntio ar addysg yn unig - yn cwmpasu iechyd a lles hefyd, er enghraifft. Roedd Grŵp Cyfeirio Allanol wedi'i sefydlu, ac roedd Kathryn Robson yn aelod ohono: roedd wedi cadeirio ei gyfarfod blaenorol. Er bod ymrwymiad parhaus i gynnal gwaith cyfredol, roedd mwy o bwyslais hefyd ar genhadaeth ddinesig y sector, yn sefydlu siarter cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes a fframwaith dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff.

Roedd Multiply (gweler cofnod 3) yn brif raglen yn y DU gyda £101 miliwn wedi'i ddyrannu i Gymru dros 3 blynedd. Cadarnhaodd Rhian Edwards ei fod yn erydu datganoli, gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys wrth ddosbarthu ei gyllid. Er y byddai Adran Addysg y DU yn cynhyrchu ei deunyddiau rhifedd ei hun, roedd rhyddid hefyd i bob darparwr lleol greu eu deunyddiau eu hunain yn ogystal.

Mewn trafodaeth ac mewn ymateb i gwestiynau, dywedwyd y byddai darlun strategol gwahanol o ran adlinio cyllid rhwng addysg uwch a rhannau eraill o'r sector ôl-16, er mai'r Comisiwn fel corff annibynnol fyddai i benderfynu'n union sut fyddai hynny'n digwydd. Felly, yn y dyfodol, byddai'n rhaid i Addysg Oedolion Cymru ddadlau ei achos yn gynyddol gyda'r Comisiwn i gael blaenoriaeth a chyllid teg. Roedd

aelodau'r Cyngor yn falch cael gwybod bod yna'r posibilrwydd o symud i ffwrdd o ddysgu a oedd yn canolbwyntio'n drwm ar gymwysterau, ac y gellid rhoi pwyslais mwy fyth ar 'fachu' dysgwyr drwy ddulliau eraill mwy amrywiol. Gwnaeth aelod o'r Cyngor bwynt penodol y byddai Covid-19, yn ddiau, ymhellach ymlaen, yn rhoi galwadau mawr ar addysg ail gyfle i lawer o blant a oedd wedi astudio yn ystod y 2 flynedd diwethaf.

Roedd Llywodraeth Cymru'n gwbl ymwybodol y dylai Bwrdd y Comisiwn fod â chynrychiolaeth rhanddeiliaid mor eang â phosibl, gan gynnwys y rheiny yn gysylltiedig ag addysg gymunedol, neu ag ardaloedd gwledig, ac y gallai fod newidiadau yn strwythur a lleoliad adrannau Llywodraeth Cymru. Er bod ymrwymiad yn barod i sicrhau 'cyfleusterau priodol' ar gyfer addysg a hyfforddiant penodedig i oedolion cymwys, nid oedd unrhyw gyllideb wedi'i chadarnhau ymhellach na 2024 ar gyfer y maes hwn ac nid oedd y manylion wedi'u cytuno eto.

Diolchodd y Cyngor i Rhian Edwards am ei mewnbwn llawn gwybodaeth am yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod.

6. Cyllidebau arfaethedig ar gyfer 2022-23

Argymhellwyd y rhain i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Adnoddau. Fe'u rhoddwyd ynghyd gyda'r bwriad o reoli risgiau wrth i'r arian pontio Covid-19 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ddod i ben. Byddai heriau ar gyfer 2022-23 yn cynnwys: meintiau dosbarthiadau llai a chostau uwch am ystafelloedd; effaith chwyddiant ar gostau cyfleustodau a mwy; ac effaith y setliad costau byw ar gyflogau - byddai pob cynnydd o 1% yn hynny yn costio c£56,000 i'r Sefydliad. Yn ddiweddar, roedd Pwyllgor Profiad y Dysgwyr wedi trafod problemau posibl yn cael eu hachosi gan bwysau chwyddiannol ar gyfer dysgwyr hefyd.

Roedd yr amcanestyniadau a ddefnyddiwyd yn ddarbodus, ond nid oeddent yn gadael rhyw lawer o le i symud. Roedd yn gadarnhaol fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud lwfans ariannol mwy ar gyfer gostyngiadau yn niferoedd myfyrwyr mewn ystafelloedd dosbarth. Roedd honno'n ystyriaeth ar wahân i gyfraniadau costau byw i'w gwneud ganddi - ni ddisgwyliwyd unrhyw wrthbwysiad gan Lywodraeth Cymru yn hynny o beth. Roedd cyfraddau cynghorol milltiredd treuliau teithio CThEM yn cael eu monitro, fel y byddai tiwtoriaid a staff eraill yn elwa o unrhyw gynnydd cyfradd ynddynt. **Cymeradwyodd y Cyngor y cyllidebau ar gyfer 2022-23 fel y'u cyflwynwyd**.

7. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2022

Nodwyd y rhain. Roedd sylwadau anffurfiol am y digwyddiad wedi bod yn gadarnhaol yn eu hadborth, a theimlwyd bod y fformat o wahanu busnes ffurfiol a'r sesiwn 'Menywod Ysbrydoledig' wedi gweithio'n dda.

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022

Rhoddodd Steve Nicholls (Cadeirydd y Pwyllgor) drosolwg o bynciau yr ymdriniwyd â nhw yng nghyfarfod y Pwyllgor. Trafodwyd cofnod 5 ar y sefyllfa bresennol ynglŷn â'n dwy gronfa waddol bresennol, a'r penderfyniad i symud £1.5 miliwn pellach o warged arian mewn tair cyfran gyfartal i ddaliadau buddsoddi newydd. Roedd y polisïau moesegol a gymhwyswyd drwyddi draw gan ein rheolwyr buddsoddi, Brewin Dolphin, a'r ymagwedd ddarbodus at drosglwyddo'r daliadau arian, yn galonogol i'r Cyngor. O ran cyfeiriad cofnod 11 at faterion ystadau penodol, gofynnwyd p'un a oedd adolygiad digon rheolaidd o werth/dyfodol Iard y Cowper, safle Caerdydd o ystyried y gwaith ailddatblygu adeiladau sylweddol yn yr ardal o amgylch. Eglurwyd bod strategaeth ystadau'r Sefydliad yn cael eu monitro

ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Adnoddau. O ystyried bod dulliau gweithio ystwyth yn cael eu cymhwyso ar ôl Covid, yna byddai Iard y Cowper yn cael ei gynnwys yn naturiol mewn adolygiadau rheolaidd o ddefnydd safleoedd swyddfa'n fwy cyffredinol. Nodwyd y cofnodion.

9. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2021 - 30 Ebrill 2022

Roedd y ffigurau yn y set hon o adroddiadau ariannol yn darparu rhagolygon cadarnhaol ar gyfer gwarged yn y cyfrifon diwedd blwyddyn. Roedd y posibilrwydd o adfer £406,000 pellach o gyllid Llywodraeth Cymru, a gategoreiddiwyd fel arian wedi'i adfachu yng nghyfrifon archwiliedig 2020-21, yn fantais bosibl bellach mewn termau cyffredinol.

10. Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 24 Mehefin 2022

Adroddodd Caroline Davies (Cadeirydd y Pwyllgor) mai hwn oedd cyfarfod olaf Jeremy Gass fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor. Dymunodd y Cyngor nodi'n ffurfiol ei werthfawrogiad o'i gyfraniad at y Sefydliad a'i gyrff rhagflaenol dros gymaint o flynyddoedd - fel cyflogai, ymddiriedolwr, cyn Gadeirydd a chwnsler doeth cyffredinol. Roedd Salamatu Fada wedi'i wneud yn is-Gadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod. Trafodwyd esblygiad yn y cwricwla oedd yn cael eu cynnig yn 2022-23, natur gadarnhaol bron yr holl adborth gan ddysgwyr, ac argymhellion y Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Ddu ar weithdrefnau amrywiaeth hiliol o fewn y Sefydliad.

11. Estyniad posibl i gyfnodau swydd aelodau'r Cyngor

Rhoddodd Stephen Thomas drosolwg o'r sefyllfa ynglŷn â pharhad, profiad cronnol ac ymddiriedolwyr newydd ar y Cyngor. Roedd 5 o aelodau'r Cyngor (o'r 17 presennol) ar fin cyrraedd eu huchafswm o chwe blynedd o wasanaeth ar yr un pryd ac felly byddant yn ymddiswyddo ar ddiwedd mis Mawrth 2023, a bu arwyddion o anhawster wrth recriwtio ar gyfer rhai swyddi gweigion ar y Cyngor dros y ddwy flynedd flaenorol. Felly, roedd achos dros drafod yn agored mater cyfnodau swyddi llywodraethwyr ac adolygiadau posibl i'r trefniant presennol, yn enwedig gan fod y cyfansoddiad yn pennu bod angen adolygiad cyffredinol ohono erbyn y gwanwyn 2023 fel rhan o'i gylch tair blynedd arferol.

Dywedodd John Graystone - a gyfaddefodd i fuddiant yn y drafodaeth hon, o ystyried ei fod yn un o'r rheiny yr oedd eu cyfnod yn dod i ben ymhen 9 mis - ei fod, yn gyffredinol, yn erbyn estyniadau i gyfnodau swydd llywodraethu oherwydd natur gadarnhaol adfywio sefydliadau ac osgoi marweiddio trwy drosiant unigolion rheolaidd. Fodd bynnag, nododd fod gan rai colegau addysg bellach gyfnodau 2 x 4 blynedd fel norm, felly hefyd cyrff fel Cynghorau Iechyd Cymunedol a phenodiadau eraill gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhai aelodau'r Cyngor yn gweld bod achos i'w wneud dros fwy o barhad mewn cyfnod o newid fel hwn: roedd Covid-19 wedi tarfu gymaint, gan gynnwys ar recriwtio staff cyflogedig, yn ogystal â pharodrwydd pobl i ddod ymlaen i sefyll fel cynghorwyr lleol neu ar gyfer rolau gwirfoddol fel y rheiny ar y Cyngor.

Roedd yn ddilys, felly, ystyried p'un a ddylai fod, fel trefn untro, ail-ystyriaeth o gyfnodau amser gwasanaeth ar gyfer swyddi llywodraethwyr. Gyda'r angen wedi'i amserlennu am adolygiad cyfansoddiadol, gellid ystyried awgrymiadau eraill hefyd, er enghraifft: lleihau i un flwyddyn (o'r ddwy bresennol) y cyfnod yr oedd yn rhaid i rywun fod oddi ar y Cyngor ar ôl gwasanaethu y tymor hwyaf; y posibilrwydd o dalu lwfansau i rai o aelodau/holl aelodau'r Cyngor; a dull newydd o drefnu am yn ail dyddiadau gadael aelodau'r Cyngor. **Gofynnodd y Cyngor i'r Clerc baratoi amserlen ar gyfer yr adolygiad cyfansoddiadol ac i ailystyried dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2023 fel ei fod yn cyd-daro'n well gydag unrhyw newidiadau arfaethedig a fyddai'n dod drwodd**.

12. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Ystyriwyd bod yr enghraifft gyntaf hon o gyfarfod cyfunol/hybrid - gyda 5 o bobl gyda'i gilydd yn swyddfa Iard y Cowper - yn llwyddiannus ac yn rhywbeth y dylai'r Cyngor barhau. Roedd yr agweddau technegol wedi gweithio, gyda chymorth ar hyd y ffordd gan Sam Emmett, er bod angen datrys mater cyfieithu ar y pryd mewnbynnau'r rheiny wedi'u lleoli yn y swyddfa ar gyfer rhai eraill yn bresennol yn yr ystafell 'gynnal'. Ystyriwyd bod y modd cynhyrchiol y daeth y Cyngor i gonsensws ar y rhan fwyaf o faterion yn rhagorol.

13. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer 2022-23

- Dydd Llun 26 Medi 2022
- Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022
- Ionawr i Fawrth 2023: 2 gyfarfod o'r Cyngor a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol (dyddiadau i'w cadarnhau)
- Dydd Mawrth 16 Mai 2023 (Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Iau 6 Gorffennaf 2023

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2022	Byddai presenoldeb gan y Sefydliad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, a digwyddiadau'r Haf yn y Parc yn Abertawe. Byddai manylion yr ymddangosiadau yn y digwyddiadau cyhoeddus hyn yn cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor.	ST	Gorffennaf 2022
Cofnod 5	Trafodaeth gyda Rhian Edwards o Lywodraeth Cymru	Defnyddiwyd cyflwyniad sleidiau i wneud y prif bwyntiau: byddai hwn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Cyngor gan y Clerc ar ôl y cyfarfod.	ST	Gorffennaf 2022
Cofnod 11	Estyniad posibl i gyfnodau swydd aelodau'r Cyngor	Gofynnodd y Cyngor i'r Clerc baratoi amserlen ar gyfer adolygiad cyfansoddiadol ac i ail-ystyried dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2023 er mwyn cyd-daro'n well gydag unrhyw newidiadau arfaethedig a fyddai'n dod drwodd.	ST	Medi 2022